



Atal cam-drin plant yn rhywiol ar yr agenda wleidyddol

DYDDIAD: 26/07/2010: Mae cyfle i drigolion Cymru osod atal cam-drin plant yn rhywiol ar yr agenda wleidyddol, diolch i ymgyrch newydd gan Stop it Now! Cymru.

Stop it Now! Cymru yw'r unig ymgyrch ledled y wlad sydd wedi'i neilltuo i atal cam-drin plant yn rhywiol. Ar 26 Gorffennaf, mae'n lansio ymgyrch newydd i bwysu ar bob plaid wleidyddol i gynnwys amddiffyn plant rhag niwed rhywiol yn eu maniffestos arfaethedig, wrth iddynt baratoi ar gyfer etholiadau'r Cynulliad yn 2011.

Mae'r ymgyrch, a elwir yn Ymrwymo i Atal! yn caniatáu i aelodau o'r cyhoedd gyfrannu at yr ymgyrch trwy lofnodi deiseb, a lleadaenu'r neges trwy eu rhwydweithiau cymdeithasol fel Facebook a Twitter yn ogystal ag oddi ar lein trwy ddefnyddio posteri, llythyrau, taflenni ac ati.

Dywedodd Rheolwr Ymgyrch Genedlaethol Stop it Now! Cymru, Rebecca Wasinski: "Mae'n bwysig bod y pleidiau gwleidyddol yn cofio am bwysigrwydd atal cam-drin plant yn rhywiol wrth iddyn nhw baratoi maniffesto. Mae cam-drin rhywiol yn effeithio ar un ymhob chwech o blant cyn iddynt gyrraedd 16 oed, ac mae'n difrodi cymaint o fywydau. Mae'n hanfodol ein bod ni'n ymeginio i atal y gamdriniaeth yma. Mae angen strategaeth genedlaethol Cymru-gyfan arnom ni i gynllunio a darparu gwasanaethau a fydd yn cyfrannu'n helaeth tuag at amddiffyn plant. Rydyn ni'n gwybod beth fydd yn helpu, ac mae angen i ni ddechrau darparu'r cymorth yma."

Yn anad dim, mae ymgyrch Ymrwymo i Atal yn galw am:

- * Ymgyrch genedlaethol i gynnig gwybodaeth i'r cyhoedd er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o raddfa cam-drin plant yn rhywiol, a'r camau y gall pob un ohonom eu cymryd i'w atal.
- * Addysg i rieni a gofalmwyr ynglŷn â sut helpu i atal cam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys magu gwytnwch yn y plant, cyfathrebu'n agored ac onest, a gosod a pharchu ffiniau ymddygiad.
- * Addysg i blant a phobl ifanc mewn ysgolion a lleoliadau ieuenctid ynglŷn â pharch mewn perthnasau, ffiniau ymddygiad rhywiol, caniatâd a chyffwrdd priodol.
- * Hyfforddiant penodol ar atal cam-drin plant yn rhywiol i'r rheiny sy'n gweithio gyda phlant a'u teuluoedd, gan gynnwys sut i adnabod arwyddion cam-drin plant yn rhywiol ac ymateb i'r sefyllfa.
- * Gwasanaethau therapiwtig i blant a'u teuluoedd sydd wedi dioddef cam-drin rhywiol .
- * Gwasanaethau ymyrrol i oedolion a phobl ifanc â meddyliau neu ymddygiad sy'n destun pryder mewn cysylltiad â phlant.

Gall pleidleiswyr ddarganfod mwy ac ymgysylltu â'r ymgyrch trwy fynd i www.stopitnow.org.uk <<http://www.stopitnow.org.uk>> <<<http://www.stopitnow.org.uk/>>> neu ffonio Rebecca Wasinski ar 07989 378220.

-Diwedd-

Nodiadau i Olygyddion:

I gael cyfweiliad, cysylltwch â Deborah Denis ar 01372 847160, 07540 690315 neu ddenis@stopitnow.org.uk <<mailto:ddenis@stopitnow.org.uk>> <<<mailto:ddenis@stopitnow.org.uk>>>.

1. Nod Stop it Now! Cymru yw atal cam-drin plant yn rhywiol ac ymrymuso pobl i weithredu'n gyfrifol i amddiffyn plant. Mae Stop it Now! yn credu bod cyfrifoldeb ar bob oedolyn i weithredu'n bositif i atal cam-drin plant yn rhywiol. Cynghrair o'r prif elusennau plant yw Stop it Now! Cymru, ac mae'n cydweithio â'r llywodraeth ac asiantaethau amddiffyn plant i hybu addysg gyhoeddus ac atal cam-drin plant yn rhywiol. Mae llinell gymorth Stop it Now! wedi bod yn weithredol ers 2002 a'i nod yw atal cam-drin plant yn rhywiol trwy annog camdrinwyr a'r rhai sydd mewn perygl o droi at gam-drin i geisio cymorth, a thrwy sicrhau bod gan oedolion y wybodaeth angenrheidiol i allu amddiffyn eu plant yn ddiogel. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Sefydliad Lucy Faithfull sy'n cyllido'r llinell gymorth. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi Stop it Now! Cymru. www.stopitnow.org.uk <<http://www.stopitnow.org.uk>>.

-